



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2010 Rhif 1493 (Cy.136)

DŴR, CYMRU

Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli
Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew
Tanwydd Amaethyddol) (Cymru)
2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1991, O.S. 1991/324 (fel y'i diwygiwyd) i'r graddau y mae O.S. 1991/324 (fel y'i diwygiwyd) yn ymwneud â Chymru.

Rhodddwyd gwybod i'r Comisiwn Ewropeaidd am y Rheoliadau hyn yn unol â Chyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor 98/34/EC sy'n gosod gweithdrefn ar gyfer darparu gwybodaeth ym maes safonau a rheoliadau technegol (OJ Rhif L 204, 21.7.98, t.37), fel y'i diwygiwyd.

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd â silwair sy'n cael ei wneud neu ei storio dan ei ofal neu ei reolaeth i gadw'r cyfryw silwair mewn seilos sy'n bodloni gofynion Atodlen 1 ac i gymryd rhagofalon a chmau eraill ar gyfer atal llygru dyfroedd.

Mae rheoliadau 4 a 5 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd â slyri neu olew tanwydd dan ei ofal neu ei reolaeth i storio'r cyfryw silwair neu olew tanwydd mewn system storio slyri neu mewn tanc storio tanwydd sy'n bodloni gofynion Atodlenni 2 neu 3.

Mae rheoliad 6 yn darparu eithriadau rhag gofynion y Rheoliadau ar gyfer seilos, systemau storio slyri a thanciau storio tanwydd.

Mae rheoliadau 7 ac 8 yn caniatáu i Asiantaeth yr Amgylchedd gyflwyno hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i waith gael ei gwneud neu i ragofalon gael eu

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 No. 1493 (W.136)

WATER, WALES

The Water Resources (Control of
Pollution) (Silage, Slurry and
Agriculture Fuel Oil) (Wales)
Regulations 2010

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations revoke and replace the Control of Pollution (Silage, Slurry and Agricultural Fuel Oil) Regulations 1991, S.I. 1991/324 (as amended) in so far as S.I. 1991/324 (as amended) relates to Wales.

These Regulations have been notified to the European Commission in accordance with the European Parliament and Council Directive 98/34/EC laying down a procedure for the provision of information in the field of technical standards and regulations (OJ No L 204, 21.7.98, p.37), as amended.

Regulation 3 requires any person who has custody or control of silage that is being made or stored to keep such silage in silos that meet the requirements of Schedule 1 and to take precautions and other steps for preventing pollution of waters.

Regulations 4 and 5 require any person who has custody or control of slurry or fuel oil to store such slurry or fuel oil in a slurry storage system or fuel storage tank that meets the requirements of Schedules 2 or 3.

Regulation 6 provides exemptions from the requirements of the Regulations for silo, slurry storage systems and fuel storage tanks.

Regulations 7 and 8 allow the Environment Agency to serve a notice requiring the carrying out of works or precautions to be taken for reducing the risk of

cymryd ar gyfer cwtogi'r risg o lygredd i ddyfroedd dan reolaeth a hefyd i ddarparu gweithdrefn i apelio yn erbyn hysbysiadau o'r fath.

Mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i Asiantaeth yr Amgylchedd gael ei hysbysu o weithiau penodol i seilo, system storio slyri neu fan storio tanwydd.

Mae rheoliad 10 yn darparu bod mynd yn groes i reoliadau penodol yn dramgwydd troseddol.

Mae'r Rheoliadau yn diweddarau'r safonau sy'n gymwys i ddyluniad ac adeiladwaith seilos a systemau storio slyri.

Mae copïau o'r dogfennau a gyhoeddir gan y Sefydliad Safonau Prydeinig y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau i'w cael o unrhyw fannau gwerthiant sydd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig, drwy'r post oddi wrth y Sefydliad Safonau Prydeinig, Gwasanaethau Cwsmeriaid, 389 Chiswick High Road, Llundain, W4 4AL, drwy ffonio 020 8996 9001, neu drwy anfon e-bost at orders@bsi-global.com.

Ni chafodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn ei baratoi ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir unrhyw effaith ar y sector breifat na'r sector wirfoddol.

pollution to controlled waters and also provide an appeal process against such notices.

Regulation 9 requires the Environment Agency to be notified of certain works to a silo, slurry storage system or fuel storage area.

Regulation 10 provides that contravention of certain regulations is a criminal offence.

The Regulations update the standards applicable to the design and construction of silos and slurry storage systems.

Copies of the documents published by the British Standards Institution referred to in the Regulations may be obtained from any of the sales outlets of the British Standards Institution, by post from the British Standards Institution, Customer Services, 389 Chiswick High Road, London, W4 4AL, by telephone on 020 8996 9001, or by email to orders@bsi-global.com.

A full Regulatory Impact Assessment has not been produced for this instrument as no impact on the private and voluntary sectors is foreseen.

2010 Rhif 1493 (Cy.136)

2010 No. 1493 (W.136)

DŴR, CYMRU

WATER, WALES

Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli
Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew
Tanwydd Amaethyddol) (Cymru)
2010

The Water Resources (Control of
Pollution) (Silage, Slurry and
Agriculture Fuel Oil) (Wales)
Regulations 2010

Gwnaed 26 Mai 2010
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 27 Mai 2010
Yn dod i rym 18 Mehefin 2010

Made 26 May 2010
*Laid before the National
Assembly for Wales* 27 May 2010
Coming into force 18 June 2010

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 92 a 219(2)(d) i (f) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 92 and 219(2)(d) to (f) of the Water Resources Act 1991(1).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru, a deuant i rym ar 18 Mehefin 2010.

Title, application and commencement

1.–(1) The title of these Regulations is the Water Resources (Control of Pollution) (Silage, Slurry and Agricultural Fuel Oil) (Wales) Regulations 2010.

(2) These Regulations apply in relation to Wales, and come into force on 18 June 2010.

Dehongli

2.–(1) Yn y Rheoliadau hyn–

mae "adeiladu" ("*construct*") yn cynnwys gosod;

ystyr "Asiantaeth yr Amgylchedd" ("*Environment Agency*") yw'r asiantaeth a sefydlwyd o dan Bennod I o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(2);

ystyr "da byw" ("*livestock*") yw–

(a) anifeiliaid sy'n cael eu cadw ar gyfer cynhyrchu bwyd neu wllân, neu

(b) adar sy'n cael eu cadw ar gyfer cynhyrchu bwyd;

Interpretation

2.–(1) In these Regulations–

"construct" ("*adeiladu*") includes install;

"Environment Agency" ("*Asiantaeth yr Amgylchedd*") means the agency established under Chapter I of the Environment Act 1995(2);

"fuel oil" ("*olew tanwydd*") means oil intended for use as a fuel for the production of heat or power but does not include oil intended for use exclusively as a fuel for heating a farmhouse or other residential premises on a farm and stored separately from other oil;

(1) 1991 p.57. Yn rhinwedd: (1) Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 2 iddo, O.S. 1999/672 a (2) Adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 11 iddi, p. 32; mae swyddogaethau o dan adrannau 92 a 219 bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru.

(2) 1995 p.25.

(1) 1991 c.57. By virtue of: (1) Article 2 of, and Schedule 2 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, S.I. 1999/672 and (2) Section 162 of, and Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 c. 32; functions under sections 92 and 219 now vest in Welsh Ministers.

(2) 1995 c.25.

ystyr "elifiant silwair" ("*silage effluent*") yw elifiant o silwair;

ystyr "olew tanwydd" ("*fuel oil*") yw olew a fwriedir i'w ddefnyddio fel tanwydd i gynhyrchu gwres neu bŵer ond nid yw'n cynnwys olew a fwriedir i'w ddefnyddio yn unig fel tanwydd i gynhesu tŷ fferm neu fangreoedd preswyl eraill ar fferm ac sy'n cael ei storio ar wahân i olew arall;

ystyr "pydew derbyn" ("*reception pit*") yw pydew a ddefnyddir i gasglu slyri cyn ei drosglwyddo i danc storio slyri neu i gasglu slyri sy'n cael ei ollwng o danc o'r fath;

ystyr "seilo" ("*silo*") yw adeiladwaith a ddefnyddir i wneud neu i storio silwair;

mae "silwair" ("*silage*") yn cynnwys cnwd sy'n cael ei wneud yn silwair;

ystyr "slyri" ("*slurry*") yw mater hylifol neu led hylifol a'i gynnwys yw—

- (a) tail a gynhyrchir gan dda byw tra maent ar fuarth neu mewn adeilad (gan gynnwys da sy'n cael eu cadw mewn corlannau sglodion coed); neu
- (b) cymysgedd sy'n cynnwys yn gyfan gwbl neu'n bennaf dail da byw, gwasarn da byw, dŵr glaw a golchion o adeilad neu fuarth a ddefnyddir gan dda byw,

ac o ddwystr sy'n caniatáu iddo gael ei bwmpio neu ei ollwng drwy ddisgyrchiant ar unrhyw gymal yn y broses o'i drin;

mae "tanc storio slyri" ("*slurry storage tank*") yn cynnwys lagŵn, pydew (ac eithrio pydew derbyn) neu dŵr sy'n cael ei ddefnyddio i storio slyri.

(2) Mae cyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at system storio slyri yn cynnwys tanc storio slyri ac—

- (a) unrhyw bydew derbyn ac unrhyw danc elifiant sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r tanc; a
- (b) unrhyw sianelau a phibellau sy'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad â'r tanc, ag unrhyw bydew derbyn neu unrhyw danc elifiant.

(3) Bodlonir gofyniad yn y Rheoliadau hyn i seilo neu danc storio slyri gydymffurfio â Safon Brydeinig (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) os yw'r seilo neu'r tanc yn cydymffurfio â safon neu â manyleb sy'n darparu lefel gyfatebol o warchodaeth a pherfformiad ac sy'n cael ei chydabod i'w defnyddio mewn Aelod-wladwriaeth, yn Ynys yr Iâ, Liechtenstein, Norwy neu Dwrci.

Gwneud neu storio silwair

3.–(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i berson sydd â silwair sy'n cael ei wneud neu ei storio dan ei ofal neu ei reolaeth sicrhau—

"livestock" ("*da byw*") means—

- (a) animals kept for the production of food or wool, or
- (b) birds kept for the production of food;

"reception pit" ("*pydew derbyn*") means a pit used for the collection of slurry before it is transferred into a slurry storage tank or for the collection of slurry discharged from such a tank;

"silage" ("*silwair*") includes a crop being made into silage;

"silage effluent" ("*elifiant silwair*") means effluent from silage;

"silo" ("*seilo*") means a structure used for making or storing silage;

"slurry" ("*slyri*") means liquid or semi-liquid matter composed of—

- (a) excreta produced by livestock while in a yard or building (including that held in wood chip corrals); or
- (b) a mixture wholly or mainly consisting of livestock excreta, livestock bedding, rainwater and washings from a building or yard used by livestock,

of a consistency that allows it to be pumped or discharged by gravity at any stage in the handling process;

"slurry storage tank" ("*tanc storio slyri*") includes a lagoon, a pit (other than a reception pit) or tower used for the storage of slurry.

(2) A reference in these Regulations to a slurry storage system includes a slurry storage tank and—

- (a) any reception pit and any effluent tank used in connection with the tank; and
- (b) any channels and pipes used in connection with the tank, any reception pit or any effluent tank.

(3) A requirement in these Regulations for a silo or slurry storage tank to conform to a British Standard (in whole or in part) is satisfied if the silo or tank conforms to a standard or specification that provides an equivalent level of protection and performance and is recognised for use in a member State, Iceland, Liechtenstein, Norway or Turkey.

Making or storage of silage

3.–(1) Subject to paragraph (3), a person who has custody or control of silage that is being made or stored must ensure that—

- (a) bod y silwair yn cael ei gadw mewn seilo sy'n bodloni gofynion Atodlen 1; neu
- (b) fod y silwair yn cael ei gywasgu i fynau—
- (i) sydd wedi'u lapio a'u selio mewn pilennau anhydraid, neu wedi'u cau mewn bagiau anhydraid; a
 - (ii) sydd wedi'u storio o leiaf 10 o fetrau oddi wrth unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd arfordirol y gallai elifiant sy'n dianc o'r byrnau fynd i mewn iddynt; neu
- (c) os mai cnwd yw'r silwair sy'n cael ei wneud yn silwair maes (hynny yw, silwair sy'n cael ei wneud ar dir agored drwy ddull gwahanol i'r dull byrnau y cyfeirir ato yn is-baragraff (b)), neu os mai silwair sy'n cael ei storio ar dir agored ydyw—
- (i) bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael ei hysbysu o'r man lle bydd y silwair yn cael ei wneud neu ei storio o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn defnyddio'r fan honno at y pwrpas hwnnw am y tro cyntaf; a
 - (ii) bod y fan honno o leiaf 10 o fetrau oddi wrth unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd arfordirol, ac o leiaf 50 o fetrau oddi wrth y lle agosaf y tynnir dŵr perthnasol o unrhyw ffynhonnell cyflenwi dŵr warchoddedig y gallai elifiant silwair fynd i mewn iddynt petai'n dianc.
- (2) At ddibenion paragraff (1)(c)(ii), mae ffynhonnell cyflenwi dŵr yn ffynhonnell cyflenwi dŵr warchoddedig—
- (a) os oes unrhyw dynnu dŵr perthnasol o'r ffynhonnell wedi'i drwydedu o dan Ran II o'r Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991; neu
 - (b) os yw'r person sy'n gwneud neu'n storio'r silwair yn ymwybodol o leoliad y ffynhonnell—
- (i) cyn dechrau ar wneud y silwair; neu
 - (ii) os gwnaed y silwair mewn man arall, cyn ei storio ar y tir dan sylw.
- (3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i silwair tra'i fod yn cael ei storio dros dro mewn cynhwysydd, ôl-gerbyd neu gerbyd mewn cysylltiad â'i gludo o gwmpas y fferm neu fan arall.
- (4) Rhaid i berson sydd â bwrn silwair dan ei ofal neu ei reolaeth beidio ag agor na symud ymaith yr hyn sy'n lapio'r bwrn o fewn 10 o fedrau i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd arfordirol y gallai elifiant silwair, o ganlyniad, fynd i mewn iddynt.
- (5) Yn y rheoliad hwn—
- (a) ystyr "tynnu dŵr perthnasol" yw tynnu dŵr ar gyfer ei ddefnyddio—
- (i) i'w yfed gan bobl; neu
- (a) the silage is kept in a silo that satisfies the requirements of Schedule 1; or
- (b) the silage is compressed into bales that—
- (i) are wrapped and sealed into impermeable membranes, or enclosed in impermeable bags; and
 - (ii) are stored at least 10 metres from any inland freshwaters or coastal waters that effluent escaping from the bales could enter; or
- (c) if the silage is a crop being made into field silage (that is, silage made on open land by a method different from the baling method referred to in sub-paragraph (b)) or silage that is being stored on open land—
- (i) the Environment Agency is given notice of the place where the silage is to be made or stored at least 14 days before the place is first used for that purpose; and
 - (ii) the place is at least 10 metres from any inland freshwaters or coastal waters, and at least 50 metres from the nearest relevant water abstraction point of any protected water supply source that silage effluent could enter if it escaped.
- (2) For paragraph (1)(c)(ii), a water supply source is a protected water supply source if—
- (a) any relevant water abstraction from the source is licensed under Part II of the Water Resources Act 1991; or
 - (b) the person making or storing the silage was aware of the source's location—
- (i) before the making of the silage began; or
 - (ii) if the silage was made elsewhere, before it was stored on the land in question.
- (3) Paragraph (1) does not apply to silage while it is stored temporarily in a container, trailer or vehicle in connection with its transport about the farm or elsewhere.
- (4) A person who has custody or control of a silage bale must not open or remove the wrapping of the bale within 10 metres of any inland freshwaters or coastal waters which silage effluent could enter as a result.
- (5) In this regulation—
- (a) "relevant water abstraction" means the abstraction of water for use for—
- (i) human consumption; or

- (ii) at ddibenion domestig (o fewn yr ystyr a roddir i "*domestic purposes*" gan adran 218 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(1)) heblaw at ei yfed gan bobl; neu
 - (iii) i weithgynhyrchu bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w yfed gan bobl; a
- (b) ystyr "ffynhonnell cyflenwi dŵr" yw dyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd daear y tynnir dŵr perthnasol ohono neu y trwyddedir tynnu dŵr perthnasol ohono.

Storio slyri

4.–(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) rhaid i berson sydd â slyri dan ei ofal neu ei reolaeth ei storio mewn system storio slyri sy'n bodloni gofynion Atodlen 2, a system felly'n unig.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i slyri tra bo'n cael ei storio dros dro mewn tancer sy'n cael ei ddefnyddio i gludo slyri ar ffyrdd neu o gwmpas fferm.

Storio olew tanwydd ar ffermydd

5.–(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i berson sydd ag olew tanwydd dan ei ofal neu ei reolaeth ar fferm sicrhau ei fod yn cael ei storio—

- (a) mewn tanc storio tanwydd o fewn man neu gyfleustra storio sy'n bodloni gofynion Atodlen 3;
- (b) mewn drymiau o fewn man storio o'r fath; neu
- (c) mewn tanc storio tanwydd tanddaearol.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys—

- (a) i storio olew tanwydd dros dro mewn tancer sy'n cael ei ddefnyddio i gludo olew tanwydd ar ffyrdd neu o gwmpas fferm; neu
- (b) pan nad yw'r cyfanswm o olew tanwydd sy'n cael ei storio dros dro ar y fferm yn fwy na 1,500 o litrau.

Esemptiadau

6.–(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i seilo, system storio slyri na thanc storio tanwydd—

- (a) a ddefnyddid, cyn 1 Mawrth 1991, at y diben o wneud silwair, storio slyri neu storio olew tanwydd, yn ôl y digwydd;
- (b) onis defnyddid cyn 1 Mawrth 1991 at y diben hwnnw, a adeiladwyd cyn y dyddiad hwnnw ar gyfer y defnydd hwnnw; neu
- (c) mewn perthynas â pha un—
 - (i) y gwnaed contract cyn 1 Mawrth 1991 i'w adeiladu, ei ehangu'n sylweddol neu ei ailadeiladu'n sylweddol, neu
 - (ii) y cychwynwyd ar waith o'r fath cyn y dyddiad hwnnw, ac

- (ii) domestic purposes (within the meaning given by section 218 of the Water Industry Act 1991(1)) other than human consumption; or
 - (iii) manufacturing food or drink for human consumption; and
- (b) "water supply source" means inland freshwaters or ground waters from which a relevant water abstraction is made or licensed to be made.

Storage of slurry

4.–(1) Subject to paragraph (2), a person having custody or control of slurry must store it only in a slurry storage system that satisfies the requirements of Schedule 2.

(2) Paragraph (1) does not apply to slurry while it is stored temporarily in a tanker that is used for transporting slurry on roads or about a farm.

Storage of fuel oil on farms

5.–(1) Subject to paragraph (2), a person who has custody or control of fuel oil on a farm must ensure that it is stored—

- (a) in a fuel storage tank within a storage area or facility that satisfies the requirements of Schedule 3;
- (b) in drums within such a storage area; or
- (c) in an underground fuel storage tank.

(2) Paragraph (1) does not apply—

- (a) to the temporary storage of fuel oil in a tanker used for transporting fuel oil on roads or about a farm; or
- (b) where the total quantity of fuel oil stored on the farm does not exceed 1,500 litres.

Exemptions

6.–(1) Subject to paragraph (2), these Regulations do not apply to a silo, slurry storage system or fuel storage tank—

- (a) which, before 1 March 1991, was being used for the purpose of making silage, storing slurry or, as the case may be, storing fuel oil;
- (b) where it was not used before 1 March 1991 for that purpose, it was constructed before that date for such use; or
- (c) in relation to which—
 - (i) a contract for its construction, substantial enlargement or substantial reconstruction was entered into before 1 March 1991, or
 - (ii) such work was commenced before that date, and

(1) 1991 p.56.

(1) 1991 c.56.

yn y naill achos a'r llall fod y gwaith wedi'i gwblhau cyn 1 Medi 1991.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i seilo, system storio slyri neu danc storio tanwydd sy'n bodloni gofynion paragraff (1) os na chydymffurfir ag unrhyw ofyniad mewn hysbysiad o dan reoliad 7 o fewn y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad ym mharagraff (2) at y cyfnod a nodir mewn hysbysiad yn gyfeiriad at y cyfnod hwnnw fel y'i hestynnwyd os cafodd ei estyn o dan reoliad 7(6)(b) neu yn rhinwedd rheoliad 8(6) ac mae unrhyw gyfeiriad yn y paragraffau hynny at ofyniad mewn hysbysiad yn gyfeiriad at y gofyniad hwnnw fel y'i haddaswyd os cafodd ei addasu o dan reoliad 7(6).

Hysbysiad yn gwneud gwaith etc. yn ofynnol

7.–(1) Caiff Asiantaeth yr Amgylchedd, mewn amgylchiadau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt, gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad rheoliad 7") i berson sydd â silwair, slyri, neu olew tanwydd dan ei ofal neu ei reolaeth, neu sydd yn gyfrifol am y seilo, y system storio slyri neu'r tanc storio olew tanwydd, yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw wneud gwaith, neu gymryd rhagofalon neu gamau eraill, a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i'r gwaith, y rhagofalon neu'r camau eraill fod, ym marn Asiantaeth yr Amgylchedd, yn briodol, o ystyried gofynion y Rheoliadau hyn, o gwtogi hyd yr eithaf, unrhyw risg sylweddol o lygru dyfroedd sydd dan reolaeth.

(3) Rhaid i'r hysbysiad–

- (a) pennu neu ddisgrifio'r gwaith, y rhagofalon neu'r camau eraill y mae'n ofynnol i'r person eu gwneud neu eu cymryd;
- (b) datgan y cyfnod y mae'n rhaid cydymffurfio ag unrhyw ofyniad o'r fath o'i fewn; ac
- (c) hysbysu'r person o effaith rheoliad 8.

(4) Y cyfnod i gydymffurfio a nodir yn yr hysbysiad yw–

- (a) 28 niwrnod; neu
- (b) unrhyw gyfnod hwy sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau.

(5) Rhaid i berson y cyflwynwyd iddo hysbysiad rheoliad 7 gydymffurfio â gofynion yr hysbysiad hwnnw.

(6) Caiff Asiantaeth yr Amgylchedd ar unrhyw adeg (gan gynnwys adeg ar ôl i'r cyfnod i gydymffurfio ddod i ben)–

- (a) tynnu'r hysbysiad yn ei ôl;
- (b) estyn y cyfnod i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn yr hysbysiad; neu
- (c) gyda chydysyniad y person y cyflwynir yr

and in either case the work was completed before 1 September 1991.

(2) These Regulations apply to a silo, slurry storage system or fuel storage tank meeting the requirements of paragraph (1) if any requirement of a notice under regulation 7 is not complied with within the period stated in the notice.

(3) Any reference in paragraph (2) to the period stated in a notice is to that period as extended if it has been extended under regulation 7(6)(b) or by virtue of regulation 8(6) and any reference in those paragraphs to a requirement of a notice is to that requirement as modified if it has been modified under regulation 7(6).

Notice requiring works etc.

7.–(1) The Environment Agency may serve, on a person who has custody or control of silage, slurry or fuel oil or is responsible for the silo, slurry storage system or fuel oil storage tank, in circumstances in which these Regulations apply, a notice ("regulation 7 notice") requiring the person to carry out works, or take precautions or other steps, specified in the notice.

(2) The works, precautions or other steps must be, in the opinion of the Environment Agency, appropriate, having regard to the requirements of these Regulations, for reducing to a minimum any significant risk of pollution of controlled waters.

(3) The notice must–

- (a) specify or describe the works, precautions or other steps that the person is required to carry out or take;
- (b) state the period within which any such requirement is to be complied with; and
- (c) inform the person of the effect of regulation 8.

(4) The period for compliance stated in the notice is–

- (a) 28 days; or
- (b) such longer period as is reasonable in the circumstances.

(5) A person on whom a regulation 7 notice has been served must comply with the requirements of that notice.

(6) The Environment Agency may at any time (including a time after the period for compliance has ended)–

- (a) withdraw the notice;
- (b) extend the period for compliance with any requirement of the notice; or
- (c) with the consent of the person on whom the

hysbysiad iddo, addasu gofynion yr hysbysiad.

(7) Rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd dynnu'r hysbysiad yn ei ôl, estyn y cyfnod i gydymffurfio, neu addasu gofynion yr hysbysiad os cyfarwyddir hwy i wneud hynny gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 8(5).

Apelau yn erbyn hysbysiadau rheoliad 7

8.–(1) Caiff person y cyflwynwyd iddo hysbysiad rheoliad 7, o fewn cyfnod o 28 niwrnod sy'n dechrau trannoeth y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo (neu unrhyw gyfnod hwy a ganiateir gan Weinidogion Cymru), apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i apêl o dan y rheoliad hwn gael ei gwneud drwy i'r apelydd gyflwyno hysbysiad i Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i'r hysbysiad gynnwys datganiad o sail yr apêl neu fod gydag ef ddatganiad felly.

(4) Cyn penderfynu ar apêl o dan y rheoliad hwn, rhaid i Weinidogion Cymru, os gofyn yr apelydd neu Asiantaeth yr Amgylchedd iddynt wneud hynny, roi cyfle i'r apelydd neu'r Asiantaeth ymddangos ger eu bron a chael gwrandawriad gan berson a benodwyd gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw.

(5) Wrth benderfynu ar apêl o dan y rheoliad hwn, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo Asiantaeth yr Amgylchedd—

- (a) i dynnu'r hysbysiad rheoliad 7 yn ei ôl;
- (b) i addasu unrhyw un neu ragor o'i ofynion;
- (c) i estyn y cyfnod i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad; neu
- (ch) i wrthod yr apêl.

(6) Estynnir y cyfnod i gydymffurfio â hysbysiad rheoliad 7 y gwnaed apêl yn ei erbyn, yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd o dan baragraff (5), fel ei fod yn dod i ben ar y dyddiad pan fydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu'n derfynol ar yr apêl neu, os tynnir yr apêl yn ei hôl, ar ddyddiad ei thynnu'n ôl.

Hysbysiad o adeiladu etc.

9. Rhaid i berson sydd yn bwriadu cael silwair, slyri neu olew tanwydd dan ei ofal neu ei reolaeth a hwnnw i gael ei gadw neu ei storio ar fferm mewn seilo, system storio slyri neu fan storio tanwydd a adeiladwyd, a ehangwyd yn sylweddol neu a ailadeiladwyd yn sylweddol ar y dyddiad pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym neu wedi hynny, roi i Asiantaeth yr Amgylchedd hysbysiad yn pennu'r math o strwythur sydd i'w ddefnyddio a'i leoliad o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn bod y strwythur i'w ddefnyddio at gadw neu storio felly.

notice is served, modify the requirements of the notice.

(7) The Environment Agency must withdraw the notice, extend the period for compliance, or modify the requirements of the notice if so directed by the Welsh Ministers under regulation 8(5).

Appeals against regulation 7 notices

8.–(1) A person served with a regulation 7 notice may, within the period of 28 days beginning on the day after the date on which the notice is served (or such longer period as the Welsh Ministers allow), appeal to the Welsh Ministers against the notice.

(2) An appeal under this regulation must be made by the appellant serving notice on the Welsh Ministers.

(3) The notice must contain or be accompanied by a statement of the grounds of appeal.

(4) Before determining an appeal under this regulation, the Welsh Ministers must, if requested to do so by the appellant or the Environment Agency, afford them an opportunity of appearing before and being heard by a person appointed by the Welsh Ministers for the purpose.

(5) On determining an appeal under this regulation, the Welsh Ministers may direct the Environment Agency to—

- (a) withdraw the regulation 7 notice;
- (b) modify any of its requirements;
- (c) extend the period for compliance with any requirement; or
- (d) dismiss the appeal.

(6) The period for compliance with a regulation 7 notice against which an appeal has been made is, subject to any direction under paragraph (5), extended so that it expires on the date on which the Welsh Ministers finally determines the appeal or, if the appeal is withdrawn, the date on which it is withdrawn.

Notice of construction etc.

9. A person who proposes to have custody or control of silage, slurry or fuel oil that is to be kept or stored on a farm in a silo, slurry storage system or fuel storage area constructed, substantially enlarged or substantially reconstructed on or after the date these Regulations come into force must give the Environment Agency notice specifying the type of structure to be used and its location at least 14 days before the structure is to be used for such keeping or storage.

Tramgwyddau a chosbau

10.—(1) Mae person sy'n mynd yn groes i reoliad 3(1), 3(4), 4(1), 5(1) neu 7(5) o'r Rheoliadau hyn yn euog o dramgwydd ac yn agored—

- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol;
- (b) o'i gollfarnu ar dditiad, i ddirwy.

(2) Mae person sy'n mynd yn groes i reoliad 9 yn euog o dramgwydd a bydd yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 2 ar y raddfa safonol.

Dirymiadau

11. Dirymir yr offerynnau statudol a ganlyn i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru—

- (a) Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1991(1);
- (b) Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1997(2).

Offences and penalties

10.—(1) A person who contravenes regulation 3(1), 3(4), 4(1), 5(1) or 7(5) of these Regulations is guilty of an offence and liable—

- (a) on summary conviction, to a fine not exceeding the statutory maximum;
- (b) on conviction on indictment, to a fine.

(2) A person who contravenes regulation 9 is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 2 on the standard scale.

Revocations

11. The following statutory instruments are revoked in so far as they relate to Wales—

- (a) The Control of Pollution (Silage, Slurry and Agricultural Fuel Oil) Regulations 1991(1);
- (b) The Control of Pollution (Silage, Slurry and Agricultural Fuel Oil) (Amendment) Regulations 1997(2).

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

26 Mai 2010

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers

26 May 2010

(1) O.S. 1991/324.

(2) O.S. 1997/547.

(1) S.I. 1991/324.

(2) S.I. 1997/547.

Y GOFYNIION AR GYFER SEILOS

REQUIREMENTS FOR SILOS

1. Y gofyniad sydd i'w fodloni mewn perthynas â seilo yw ei fod yn cydymffurfio â'r darpariaethau a ganlyn yn yr Atodlen hon.

2. Rhaid i sylfaen y seilo—

- (a) ymestyn y tu hwnt i unrhyw furiau sydd i'r seilo;
- (b) cael o'i amgylch sianelau sydd wedi'u dylunio a'u hadeiladu fel eu bod yn casglu unrhyw elifiant silwair sy'n dianc o'r seilo; ac
- (c) bod â darpariaeth ddigonol ar gyfer traenio'r elifiant hwnnw o'r sianelau hynny i danc elifiant drwy sianel neu bibell.

3. Rhaid i'r tanc elifiant beidio â dal llai na—

- (a) yn achos seilo sy'n dal llai na 1,500 o fetrau ciwbig, 20 litr ar gyfer pob metr ciwbig o'r hyn y mae'r seilo yn ei ddal; ac
- (b) yn achos seilo sy'n dal 1,500 o fetrau ciwbig neu fwy, 30 o fetrau ciwbig ac yn ychwanegol 6.7 litr ar gyfer pob metr ciwbig o'r hyn y mae'r seilo yn ei ddal uwchlaw 1,500 o fetrau ciwbig.

4.—(1) Rhaid i sylfaen y seilo—

- (a) bod wedi'i ddylunio yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer dylunio strwythurau concrit i gadw hylifau dyfrllyd a gyhoeddir gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 8007: 1987(1); neu
- (b) bod wedi ei adeiladu gan ddefnyddio asffalt poeth wedi'i droelli yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer dewis a defnyddio deunyddiau adeiladu a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 21: 1990(2).

(2) Rhaid i sylfaen y seilo, sylfaen a muriau ei danc elifiant a sianelau a muriau unrhyw bibellau fod yn anhydraidd.

5. Rhaid i sylfaen a muriau'r seilo, ei danc elifiant a'i sianelau a muriau unrhyw bibellau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, allu gwrthsefyll ymosodiad gan elifiant silwair.

6. Ni chaniateir lleoli unrhyw ran o'r seilo, ei danc elifiant na'i sianelau nac unrhyw bibellau o fewn 10 o fetrau i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol na dyfroedd arfordirol y gallai elifiant silwair fynd i mewn iddynt petai'n dianc.

1. The requirement to be satisfied in relation to a silo is that it complies with the following provisions of this Schedule.

2. The base of the silo must—

- (a) extend beyond any walls of the silo;
- (b) be provided at its perimeter with channels designed and constructed so as to collect any silage effluent that escapes from the silo; and
- (c) have adequate provision for the drainage of that effluent from those channels to an effluent tank through a channel or pipe.

3. The capacity of the effluent tank must not be less than—

- (a) in the case of a silo with a capacity of less than 1,500 cubic metres, 20 litres for each cubic metre of silo capacity; and
- (b) in the case of a silo with a capacity of 1,500 cubic metres or more, 30 cubic metres plus 6.7 litres for each cubic metre of silo capacity in excess of 1,500 cubic metres.

4.—(1) The base of the silo must be—

- (a) designed in accordance with the code of practice for design of concrete structures for retaining aqueous liquids published by the British Standards Institution and numbered BS 8007: 1987(1); or
- (b) constructed using appropriate hot-rolled asphalt in accordance with the code of practice for selection and use of construction materials published by the British Standards Institution and numbered BS 5502: Part 21: 1990(2).

(2) The base of the silo, the base and walls of its effluent tank and channels and walls of any pipes must be impermeable.

5. The base and walls of the silo, its effluent tank and channels and the walls of any pipes must, so far as reasonably practicable, be resistant to attack by silage effluent.

6. No part of the silo, its effluent tank or channels or any pipes may be situated within 10 metres of any inland freshwaters or coastal waters into which silage effluent could enter if it were to escape.

(1) Dyddiad cyhoeddi: 30 Hydref 1987. ISBN 0-580-16134-X.

(2) Dyddiad cyhoeddi: 31 Rhagfyr 1990. ISBN 0-580-18348-3.

(1) Publication date: 30 October 1987. ISBN 0-580-16134-X.

(2) Publication date: 31 December 1990. ISBN 0-580-18348-3.

7. Os oes gan y seilo furiau cynnal—
- (a) rhaid i'r muriau cynnal allu gwrthsefyll lleiafswm o lwythi mur sydd wedi'u cyfrifo ar y rhagdybiaethau ac yn y dull a ddangosir gan baragraffau 15.6 o'r cod ymarfer ar adeiladau a strwythurau ar gyfer amaethyddiaeth a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 22: 2003(1);
 - (b) rhaid i'r seilo beidio â bod wedi'i lwytho ar unrhyw adeg i ddyfnder sydd uwchlaw'r dyfnder eithaf sy'n gyson â'r rhagdybiaeth ddyluniol a wnaed o ran llwythi y muriau cynnal; ac
 - (c) rhaid arddangos hysbysiadau ar y muriau cynnal yn unol â pharagraff 18 o'r cod ymarfer hwnnw.

8. Yn ddarostyngedig i baragraff 9, rhaid i'r seilo, ei danc elifiant a'i sianelau ac unrhyw bibellau fod wedi'u dylunio a'u hadeiladu fel y'u bod yn debygol, gyda'r gwaith cynnal a chadw priodol, o barhau i fodloni gofynion paragraffau 2 i 5 ac, os yw'n gymwys, paragraff 7(a) am o leiaf 20 mlynedd.

9. Os oes unrhyw ran o danc elifiant islaw wyneb y tir, rhaid i'r tanc fod wedi'i ddylunio a'i adeiladu fel ei fod yn debygol o barhau i fodloni gofynion paragraffau 4 a 5 am o leiaf 20 mlynedd heb waith cynnal a chadw.

7. If the silo has retaining walls—
- (a) the retaining walls must be capable of withstanding minimum wall loadings calculated on the assumptions and in the manner indicated by paragraphs 15.6 of the code of practice on buildings and structures for agriculture published by the British Standards Institution and numbered BS 5502: Part 22: 2003(1);
 - (b) the silo must at no time be loaded to a depth exceeding the maximum depth consistent with the design assumption made in respect of the loadings of the retaining walls; and
 - (c) notices must be displayed on the retaining walls in accordance with paragraph 18 of that code of practice.

8. Subject to paragraph 9, the silo, its effluent tank and channels and any pipes must be designed and constructed so that with proper maintenance they are likely to continue to satisfy the requirements of paragraphs 2 to 5 and, if applicable, paragraph 7(a) for at least 20 years.

9. If any part of an effluent tank is below ground level, the tank must be designed and constructed so that it is likely to continue to satisfy the requirements of paragraphs 4 and 5 for at least 20 years without maintenance.

ATODLEN 2

Rheoliad 4(1)

Y GOFYNYION AR GYFER SYSTEMAU STORIO SLYRI

1. Dyma'r gofynion sydd i'w bodloni mewn perthynas â system storio slyri.
2. Rhaid i sylfaen y tanc storio slyri, sylfaen a muriau unrhyw danc elifiant, sianelau a phydew derbyn, a muriau unrhyw bibellau fod yn anhydraidd.
3. Rhaid i sylfaen a muriau y tanc storio slyri, sylfaen ac unrhyw danc elifiant, sianelau a phydew derbyn, a muriau unrhyw bibellau fod wedi'u diogelu rhag crydiad yn unol â pharagraff 7 o'r cod ymarfer ar adeiladau a strwythurau ar gyfer amaethyddiaeth a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 50: 1993(2).

SCHEDULE 2

Regulation 4(1)

REQUIREMENTS FOR SLURRY STORAGE SYSTEMS

1. The requirements to be satisfied in relation to a slurry storage system are as follows.
2. The base of the slurry storage tank, the base and walls of any effluent tank, channels and reception pit, and the walls of any pipes, must be impermeable.
3. The base and walls of the slurry storage tank, any effluent tank, channels and reception pit, and the walls of any pipes, must be protected against corrosion in accordance with paragraph 7 of the code of practice on buildings and structures for agriculture published by the British Standards Institution and numbered BS 5502: Part 50: 1993(2).

(1) Dyddiad cyhoeddi: 10 Mehefin 2003. ISBN 0-580-38654-6.

(2) Dyddiad cyhoeddi: 15 Ebrill 1993. ISBN 0-580-22053-2.

(1) Publication date: 10 June 2003. ISBN 0-580-38654-6.

(2) Publication date: 15th April 1993. ISBN 0-580-22053-2.

4. Rhaid i sylfaen a muriau y tanc storio slyri ac unrhyw bydew derbyn allu gwrthsefyll llwythi nodweddiadol sydd wedi'u cyfrifo ar y rhagdybiaethau ac yn y dull a ddangosir gan baragraff 5 o'r cod ymarfer ar adeiladau a strwythurau ar gyfer amaethyddiaeth a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 50: 1993.

5.–(1) Rhaid bod gan unrhyw gyfleusterau a ddefnyddir i storio slyri dros dro cyn iddo gael ei drosglwyddo i danc storio slyri ddigon o le i storio–

- (a) yr uchafswm o slyri (gan ddiystyru unrhyw slyri a fydd yn cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i danc storio slyri) sy'n debygol o gael ei gynhyrchu ar y fangre mewn unrhyw gyfnod o ddau ddiwrnod; neu
- (b) swm llai y mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cytuno'n ysgrifenedig ei fod yn ddigonol i osgoi unrhyw risg sylweddol o lygru dyfroedd dan reolaeth.

(2) Pan fo slyri yn llifo i mewn i sianel cyn cael ei ollwng i bydew derbyn a bod llif y slyri allan o'r sianel yn cael ei reoli gan lifddor, rhaid i'r hyn y gall y pydew derbyn ei ddal fod yn ddigonol i ddal yr uchafswm o slyri y gellir ei ollwng drwy agor y llifddor.

6.–(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), rhaid bod yna ddigon o le yn y tanc storio slyri ar gyfer storio'r symiau tebygol o slyri a gynhyrchir o bryd i'w gilydd ar y fangre dan sylw, gan gymryd i ystyriaeth–

- (a) y dull arfaethedig o ddefnyddio'r slyri, a graddfeydd ac adegau tebygol y defnydd hwnnw; a
- (b) y materion a grybwyllir yn is-baragraff (3).

(2) Os bwriedir defnyddio'r slyri ar y fangre drwy ei daenu ar y tir, nid oes rhaid bod gan y tanc fwy o le i storio nag sy'n ddigonol, gan gymryd ystyriaeth o'r materion a grybwyllir yn is-baragraff (3), i ddal yr uchafswm o slyri sy'n debygol o gael ei gynhyrchu mewn unrhyw gyfnod o bedwar mis.

(3) Y materion sydd i'w cymryd i ystyriaeth ar gyfer is-baragraffau (1) a (2) yw–

- (a) faint y gall unrhyw danc storio slyri arall ar y fangre ei ddal;
- (b) faint o law (gan gynnwys eira, cenllysg neu eirlaw) sy'n debygol o dywallt neu draenio i mewn i'r tanc storio slyri yn ystod y cyfnod storio hwyaf sy'n debygol; ac
- (c) yr angen i ddarparu o leiaf 750 milimetr o fwrdd rhydd yn achos tanc gyda muriau wedi'u gwneud o bridd a 300 milimetr o fwrdd rhydd ym mhob achos arall.

7. Ni chaniateir lleoli unrhyw ran o'r tanc storio slyri, nac unrhyw danc elifiant na sianelau na phydew derbyn o fewn 10 o fetrau i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol na dyfroedd arfordirol y gallai slyri fynd i

4. The base and walls of the slurry storage tank and of any reception pit must be capable of withstanding characteristic loads calculated on the assumptions and in the manner indicated by paragraph 5 of the code of practice on buildings and structures for agriculture published by the British Standards Institution and numbered BS 5502: Part 50: 1993.

5.–(1) Any facilities used for the temporary storage of slurry before it is transferred to a slurry storage tank must have adequate capacity to store–

- (a) the maximum quantity of slurry that (disregarding any slurry which will be transferred directly into a slurry storage tank) is likely to be produced on the premises in any two day period; or
- (b) a lesser capacity that the Environment Agency agrees in writing is adequate to avoid any significant risk of pollution of controlled waters.

(2) Where slurry flows into a channel before discharging into a reception pit and the flow of slurry out of the channel is controlled by means of a sluice, the capacity of the reception pit must be adequate to hold the maximum quantity of slurry that can be released by opening the sluice.

6.–(1) Subject to sub-paragraph (2), the slurry storage tank must have adequate storage capacity for the likely quantities of slurry produced from time to time on the premises in question, taking into account–

- (a) the proposed method of utilising the slurry, and the likely rates and times of utilisation; and
- (b) the matters mentioned in sub-paragraph (3).

(2) If it is proposed to utilise the slurry on the premises by spreading it on the land, the tank need not have a greater storage capacity than is adequate, taking into account the matters mentioned in sub-paragraph (3), to hold the maximum quantity of slurry likely to be produced in any four month period.

(3) The matters to be taken into account for sub-paragraphs (1) and (2) are–

- (a) the storage capacity of any other slurry storage tank on the premises;
- (b) the likely quantities of rainfall (including snow, hail or sleet) that may fall or drain into the slurry storage tank during the likely maximum storage period; and
- (c) the need to provide at least 750 millimetres of freeboard in the case of a tank with walls made of earth and 300 millimetres of freeboard in all other cases.

7. No part of the slurry storage tank or any effluent tank, channels or reception pit may be situated within 10 metres of any inland freshwaters or coastal waters into which slurry could enter if it were to escape unless

mewn iddynt petai'n dianc oni chymerir rhagofalon y mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cytuno'n ysgrifenedig eu bod yn ddigonol i osgoi unrhyw risg sylweddol o lygru dyfroedd dan reolaeth.

8. Rhaid i'r tanc storio slyri ac unrhyw danc elifiant, sianelau, pibellau a phydwed derbyn fod wedi'u dylunio a'u hadeiladu fel y'u bod yn debygol, gyda'r gwaith cynnal a chadw priodol, o barhau i fodloni gofynion paragraffau 2 i 4 am o leiaf 20 mlynedd.

9. Os nad yw muriau'r tanc storio slyri yn anhydraidd, rhaid i sylfaen y tanc—

- (a) ymestyn y tu hwnt i'r muriau;
- (b) cael o'i amgylch sianelau sydd wedi'u dylunio a'u hadeiladu fel eu bod yn casglu unrhyw slyri sy'n dianc o'r tanc;
- (c) bod â darpariaeth ddigonol ar gyfer traenio'r slyri o'r sianelau hynny i danc elifiant drwy sianel neu bibell.

10.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), os oes pibell draenio wedi'i gosod yn y tanc storio slyri neu yn unrhyw danc elifiant neu bydwed derbyn mae'n rhaid bod dwy falf mewn cyfres ar y bibell a bod pellter o o leiaf 1 metr rhwng un falf a'r llall.

(2) Rhaid i bob falf allu cau llif y slyri drwy'r bibell a rhaid eu cadw wedi'u cau ac wedi'u cloi yn y sefyllfa honno pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â thanc storio slyri sy'n traenio drwy'r bibell i danc storio slyri arall os yw'r tanc arall yn dal yr un faint neu fwy neu os yw topiau'r tanciau ar yr un lefel â'i gilydd.

11. Yn achos tanc storio slyri gyda muriau o bridd rhaid peidio â llenwi'r tanc hyd at lefel sy'n caniatáu llai na 750 o filimetrau o fwrdd rhydd.

precautions are taken that the Environment Agency agrees in writing are adequate to avoid any significant risk of pollution of controlled waters.

8. The slurry storage tank and any effluent tank, channels, pipes and reception pit must be designed and constructed so that with proper maintenance they are likely to continue to satisfy the requirements of paragraphs 2 to 4 for at least 20 years.

9. If the walls of the slurry storage tank are not impermeable, the base of the tank must—

- (a) extend beyond the walls;
- (b) be provided with channels designed and constructed so as to collect any slurry that escapes from the tank;
- (c) have adequate provision for the drainage of the slurry from those channels to an effluent tank through a channel or pipe.

10.—(1) Subject to sub-paragraph (3), if the slurry storage tank or any effluent tank or reception pit is fitted with a drainage pipe there must be two valves in series on the pipe with each valve separated from the other by a minimum distance of 1 metre.

(2) Each valve must be capable of shutting off the flow of slurry through the pipe and must be kept shut and locked in that position when not in use.

(3) Sub-paragraph (1) does not apply in relation to a slurry storage tank that drains through the pipe into another slurry storage tank if the other tank is of equal or greater capacity or if the tops of the tanks are at the same level.

11. In the case of a slurry storage tank with walls made of earth the tank must not be filled to a level that allows less than 750 millimetres of freeboard.

ATODLEN 3

Rheoliad 5(1)

Y GOFYNION AR GYFER MANNAU STORIO OLEW TANWYDD

1. Dyma'r gofynion sydd i'w bodloni mewn perthynas â man storio olew tanwydd.

2. Rhaid i'r man storio fod wedi'i amgylchynu â bwnd sy'n gallu cadw o fewn y fan honno—

- (a) os mai dim ond un tanc storio tanwydd sydd o fewn y fan honno ac nad yw olew tanwydd yn cael ei storio mewn unrhyw fodd arall yno, cyfaint o olew tanwydd heb fod yn llai na 110 y cant o'r hyn y gall y tanc ei ddal;
- (b) os oes mwy nag un tanc storio tanwydd o fewn

SCHEDULE 3

Regulation 5(1)

REQUIREMENTS FOR FUEL OIL STORAGE AREAS

1. The requirements to be satisfied in relation to a fuel oil storage area are as follows.

2. The storage area must be surrounded by a bund capable of retaining within the area—

- (a) if there is only one fuel storage tank within the area and fuel oil is not otherwise stored there, a volume of fuel oil not less than 110 per cent of the capacity of the tank;
- (b) if there is more than one fuel storage tank

y fan ac nad yw olew tanwydd yn cael ei storio mewn unrhyw fodd arall yno, cyfaint o olew tanwydd nad yw'n llai na'r mwyaf o—

- (i) 110 y cant o'r hyn y gall y tanc mwyaf o fewn y fan ei ddal; neu
 - (ii) 25 y cant o gyfanswm cyfaint y cyfryw olew y gellid ei storio yn y tanciau o fewn y fan;
- (c) os nad oes yna danc storio tanwydd o fewn y fan, cyfaint o olew tanwydd heb fod yn llai na 25 y cant o gyfanswm y cyfryw olew sy'n cael ei storio o fewn y fan ar unrhyw adeg;
- (ch) mewn unrhyw achos arall, cyfaint o olew tanwydd nad yw'n llai na'r mwyaf o—
- (i) 110 y cant o'r hyn y gall y tanc storio tanwydd neu, yn ôl y digwydd, y tanc mwyaf o fewn y fan, ei ddal;
 - (ii) os oes mwy nag un tanc storio tanwydd o fewn y fan, 25 y cant o gyfanswm cyfaint y cyfryw olew y gellid ei storio yn y tanciau o fewn y fan; neu
 - (iii) 25 y cant o gyfanswm cyfaint y cyfryw olew sy'n cael ei storio o fewn y fan ar unrhyw adeg.

3. Rhaid i'r bwnd a sylfaen y fan—

- (a) bod yn anhydraidd i ddŵr ac olew; a
- (b) bod wedi'u dylunio a'u hadeiladu fel bod ynddynt ddigon o gryfder a chyfanrwydd strwythurol fel eu bod gyda gwaith cynnal a chadw priodol yn debygol o barhau felly am o leiaf 20 mlynedd.

4. Rhaid i bob rhan o unrhyw danc storio tanwydd fod o fewn y bwnd.

5. Rhaid i unrhyw dap neu falf sydd wedi'u gosod yn sownd yn barhaol i'r tanc storio tanwydd y gellir gollwng olew tanwydd ohono i'r tu allan—

- (a) hefyd fod o fewn y bwnd;
- (b) bod wedi'u trefnu fel bod gollyngiadau drwyddynt yn fertigol a thuag i lawr; ac
- (c) bod wedi'u cau ac wedi'u cloi yn y sefyllfa honno pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

6. Os oes tanwydd o'r tanc yn cael ei drosglwyddo drwy bibell ystwyth sydd wedi'u gosod yn sownd yn barhaol i'r tanc, rhaid i'r bibell—

- (a) bod â thap neu falf wedi ei osod ar ei phen draw sy'n cau'n awtomatig pan nad yw'n cael ei defnyddio; a
- (b) bod wedi'i chloi mewn modd sy'n sicrhau ei bod yn cael ei chadw o fewn y bwnd pan nad yw'n cael ei defnyddio.

7. Ni chaniateir lleoli unrhyw ran o'r man storio tanwydd na'r bwnd sy'n ei amgylchynu o fewn 10 o fetrau i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol na dyfroedd arfordirol y gallai olew tanwydd fynd i mewn iddynt petai'n dianc.

within the area and fuel oil is not otherwise stored there, a volume of fuel oil not less than the greater of—

- (i) 110 per cent of the capacity of the largest tank within the area; or
 - (ii) 25 per cent of the total volume of such oil which could be stored in the tanks within the area;
- (c) if there is no fuel storage tank within the area, a volume of fuel oil not less than 25 per cent of the total of such oil at any time stored within the area;
- (d) in any other case, a volume of fuel oil not less than the greater of—
- (i) 110 per cent of the capacity of the fuel storage tank or, as the case may be, of the largest tank within the area;
 - (ii) if there is more than one fuel storage tank within the area, 25 per cent of the total volume of such oil that could be stored in the tanks within the area; or
 - (iii) 25 per cent of the total volume of such oil at any time stored within the area.

3. The bund and the base of the area must be—

- (a) impermeable to water and oil; and
- (b) designed and constructed so that they are of sufficient strength and structural integrity so that with proper maintenance they are likely to remain so for at least 20 years.

4. Every part of any fuel storage tank must be within the bund.

5. Any tap or valve permanently fixed to the fuel storage tank through which fuel oil can be discharged to the open must—

- (a) also be within the bund;
- (b) be so arranged as to discharge vertically downwards; and
- (c) be shut and locked in that position when not in use.

6. If fuel from the tank is delivered through a flexible pipe that is permanently attached to the tank, the pipe must be—

- (a) fitted with a tap or valve at its end that closes automatically when not in use; and
- (b) locked in a way that ensures that it is kept within the bund when not in use.

7. No part of the fuel storage area or the bund enclosing it may be situated within 10 metres of any inland freshwaters or coastal waters that fuel oil could enter if it were to escape.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2010 Rhif 1493 (Cy.136)

DŴR, CYMRU

Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli
Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew
Tanwydd Amaethyddol) (Cymru)
2010

©© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office
Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei
Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 No. 1493 (W.136)

WATER, WALES

The Water Resources (Control of
Pollution) (Silage, Slurry and
Agriculture Fuel Oil) (Wales)
Regulations 2010

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the
authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's
Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.